

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Cymorth Dewisol ar gyfer Costau Byw.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau i helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw. Mae'r becyn yn cynnwys £152m i ddarparu taliad costau byw o £150 i aelwydydd cymwys (y prif gynllun) a £25m i ddarparu cymorth disgresiynol at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â chostau byw. Rhoddwyd dyraniadau cyllid ar gyfer pob rhan o'r cynllun i awdurdodau lleol ar 25 Mawrth 2022.

Bwriad y cynlluniau yw rhoi cymorth ar unwaith i aelwydydd wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig a delio ag effaith costau ynni a chostau byw eraill sy'n cynyddu.

Wrth ddatblygu Cynllun Dewisol Lleol, mae gan bob awdurdod lleol ymreolaeth lwyr i dargedu'r arian i gefnogi ei drigolion yn y ffordd orau bosibl ac i sicrhau bod ei ddull gweithredu yn gweddu orau i anghenion aelwydydd unigol.

Y Newid sy'n cael ei ystyried:-

Defnyddio rhan o elfen Cyngor Gwynedd o'r Gronfa Disgresiynol i wneud taliadau i aelwydydd nad oedd yn wedi derbyn taliad trwy'r cynllun statudol gwreiddiol ar sail Treth Cyngor eu haelwyd ("Cynllun Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor").

Defnyddio gweddill y cyllid trwy ei drosglwyddo i Hybiau Banciau Bwyd er mwyn cyflawni prosiectau penodol fydd yn lliniaru effaith yr argyfwng costau byw ar yr aelwydydd mwyaf bregus. ("Cynllun Hybiau Banciau Bwyd").

Mae canllawiau ar gyfer y Cynllun Dewisol wedi cael eu gosod gan LLC sy'n cyfyngu sgôp gweithrediadau'r cyngor.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Chwefror– Ebrill 2022

- Adnabod yr aelwydydd oedd yn gymwys i dderbyn taliadau dan y cynllun gwreiddiol – aelwydydd oedd unai'n derbyn cymorth dan y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor, neu yn byw mewn eiddo band A – D ac yn bodloni meini prawf penodol.

Mai - Mehefin 2022

- Dosbarthu taliadau o £150 i aelwydydd cymwys, unai trwy daliadau uniongyrchol i'w cyfrifon banc neu trwy ddosbarthu talebau i'w defnyddio mewn swyddfeydd post.

- Cychwyn ar y gwaith o adnabod categorïau o aelwydydd bregus a/neu gyda chyfyngiadau ar eu hincwm ond nad oedd yn gymwys i gael taliad dan y cynllun gwreiddiol.

Gorffennaf - Awst 2022

- Asesu nifer yr aelwydydd ym mhob categori a chadarnhau cadernid y meini prawf
- Diweddarau'r Cynllun Disgresiynol drwy wasanaethau cymorth.

Hybiau Banciau Bwyd

Mai 2022

- Adnabod grwpiau taliadau unigol
- Adnabod grwpiau posibl i dderbyn taliadau disgresiwn uniongyrchol
- Adnabod gwasanaethau posibl ar gyfer defnydd o'r gronfa ddisgresiwn.

Gorffennaf 2022

- Canllawiau terfynol LLC wedi eu derbyn
- Adolygu'r grwpiau blaenoriaeth i gyd-fynd gyda'r canllaw (cymwysedd / anghymwys)

Awst 2022

Diweddarau'r Cynllun Disgreisiynol drwy wasanaethau cymorth.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Gwasanaethau Mewnol y Cyngor – Cyllid, Tai, Oedolion, Plant, Economi.

Hybiau Banciau Bwyd

Gwasanaethau Mewnol y Cyngor – Cyllid, Tai, Oedolion, Plant, Economi.

Defnyddwyr:

Partneriaid gweithredol – banciau bwyd, cynlluniau cymunedol,

Partneriaid Strategol – Cynefin, Adra, CAB, Mantell Gwynedd, Llywodraeth Cymru.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷf n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Nid oes ymgynghoriad wedi cael ei gynnal. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun dewisol:

“Yn ogystal â chefnogi'r categorïau cymwys a amlinellwyd uchod drwy'r prif gynllun, caiff pob awdurdod lleol ddefnyddio'r cyllid a ddarperir o dan y Cynllun Disgresiynol i gefnogi aelwydydd y mae angen cymorth arnynt gyda'u costau byw, ym marn yr awdurdod lleol. Gall y cymorth hwn fod ar ffurf taliad i aelwyd nad yw wedi'i chwmpasu eisoes gan y prif gynllun, neu gall dalu costau gwasanaethau hanfodol a ddarperir i'r aelwyd, er enghraifft ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim neu brydau bwyd ar glud.

Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut y bydd yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael a rhestrir rhai meysydd i'w hystyried yn y cynllun disgresiynol lleol isod:

- *Gellir darparu taliadau (neu gymorth arall) i aelwydydd nad ydynt yn perthyn i un o ddsbarthiadau cymwys A neu B yn y prif gynllun neu sy'n byw mewn eiddo sydd wedi'i eithrio rhag talu'r dreth gyngor, er enghraifft pobl sy'n gadael gofal a phobl sydd wedi'u heithrio oherwydd nam meddyliol difrifol.*
- *Gwneir gwneud taliadau i aelwydydd y gellir eu nodi ar wahân sy'n byw mewn Tai Amfeddiannaeth.*
- *Gellir dyfarnu taliad i aelwydydd sy'n cael gwasanaethau cymorth tai a/neu sy'n byw mewn llety dros dro neu loches.”*

Rydym wedi ymdrechu i ymlynu mor agos â phosib i'r gofynion hyn wrth ddylunio'r canlynol:

O safbwynt y taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor, roedd y amlwg fod rhai aelwydydd wedi cael eu heithrio o'r cynllun gwreiddiol am fod eithriadau statudol yn golygu nad oedd angen talu Treth Cyngor ar yr eiddo. Serch hynny, byddai preswylwyr eiddo o'r fath yn sicr o fod mewn risg o dioddef caledi ariannol gan fod natur yr eithriad yn nodweddiadol o sefyllfa benodol yr aelwyd, lle byddai diffyg incwm yn golygu

- Eithriad Dosbarth N – eiddo wedi feddiannu gan fyfyrwyr llawn amser
- Eithriad Dosbarth S – Eiddo wedi feddiannu gan bobol dan 18
- Eithriad Dosbarth U – Eiddo wedi feddiannu gan breswylwyr sydd wedi eu adnabod fel bod â “Nam Meddyliol Difrifol” (noder – dyma'r terminoleg a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, “Severely Mentally Impaired”)
- Eithriad Dosbarth W – Anecs wedi feddiannu gan berthnasau dibynnol dan amodau
- Eithriad Dosbarth X – Unigolion dan 25 sydd mewn ôl ofal
- Eiddo Band F-I sydd yn deilwng i ostyngiad Band oherwydd anabled
- Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd “Nam Meddyliol Difrifol” (noder – dyma'r terminoleg a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, “Severely Mentally Impaired”).

Yn ogystal â'r uchod, mae'r canlynol hefyd wedi cael eu hadnabod fel amgylchiadau lle mae incwm yr aelwyd wedi ei gwtogi oherwydd yr amgylchiadau, a felly'n derbyn taliad o £150.

- Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd cyfrifoldeb gofal
- Eiddo Band E-I ble mae'r ail berson ar y cyfrif Treth Cyngor yn 18-19 mlwydd oed ac mewn addysg
- Eiddo Band E-I sydd yn deilwng i Ddisgownt Preswlydd Sengl

Hybiau Banciau Bwyd

Mae criteria aelwydydd cymwys wedi eu gosod gan y canllaw felly nid oes ymgysylltu wedi bod gyda hwy. Fodd bynnag mae profiad blaenorol o weinyddu taliadau (Winter Fuel Payment / Self Isolation COVID Payment) wedi hysbysu y weithdrefn leol sydd wedi ei rhoi mewn lle ar gyfer sicrhau mynediad pobl i'r gefnogaeth yma ee ad-daliad banc drwy'r cyfrif treth cyngor; cais am daliad i dreth-dalwyr nad ydynt yn talu drwy DD; cais ar lein, cais dros ffon ac ati.

Mae gwaith ymgysylltu wedi bod gyda trigolion drwy gomisiwn CELyn – portreadau o fyw gyda argyfwng costau byw yng Ngwynedd. Mae'r portreadau hynny yn dangos fod mynediad i help lleol, help ariannol, cyngor, uchafu incwm, talebau a nwyddau yn allweddol iddyn nhw.

Mae ymgysylltu gyda banciau bwyd a defnyddwyr y banciau yn nodi fod mwy o alw. Mae pobl yn dewis talu rent a biliau heb ddim ar ôl ar gyfer bwydo yn negeseuon sydd wedi dod i'r banciau a grwpiau bwydo lleol ac yn ei sgil y mwy o ddefnydd a galw ar y gwasanaethau hynny.

Mae ymgysylltu gyda Cyngor ar Bopeth a Timau Lles y Cymdeithasau Tai yn nodi mwy o alw gan bobl am help ymarferol o amgylch tlodi, ond hefyd help gyda effeithiau tlodi ar iechyd meddwl ee iselder, gorbryder a straen.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Addasu gweithdrefnau er mwyn sicrhau hygrychedd i daliadau uniongyrchol.

Sefydlu Rhwydwaith o Hybiau Cefnogi Pobl mewn 11 cymuned sy'n tynnu gwasanaethau cymorth i un lle. Mae'r MoU hefyd yn nodi fod yr hwb yn agored i bawb, ond bod disgwyl i'r hybiau dargedu rhai grwpiau sydd fwyaf mewn perygl – economaidd - gymdeithasol a effeithir, pobl gydag anabledau, gofalwyr di-dal fel y grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

Sefydlu Cronfa Grant Bwyd ar gyfer sicrhau digon o gyflenwad bwyd a bwydo argyfwng drwy'r sir yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ble mae cost cyrraedd siopau, a siopau yn tueddu i fod yn ddrytach.

Sefydlu Rhwydwaith o adeiladau i ddarparu gofod cynnes i bobl y tu allan i'w cartrefi.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Canllawiau'r Gronfa gan LLC.

Data Treth Cyngor.

Hybiau Banciau Bwyd

Canllawiau'r Gronfa gan LLC.

Data Amddifadedd Lleol.

Data Tlodi Tanwydd Lleol.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Na – mae'r taliadau yn seiliedig ar sefyllfa Treth Cyngor yr eiddo.

Hybiau Banciau Bwyd

Pa ddarpariaethau eraill sydd ar gael yn lleol er mwyn gwarantu osgoi dyblygu / camwahaniaethu anfwriadol – mae'r cyd-destun yn newid yn sydyn ac mae ymgyrchoedd newydd yn codi yn ddyddiol.

Nid oes ffordd o fapio cyfredol o ran yr holl ymyraethau posibl i grwpiau penodol / poblogaeth gyfan sydd ar gael.

Mae data amddifadedd a thlodi drwy'r WIMD yn dyddio i'r cyfnod cyn COVID felly mae'r sail dystiolaeth wedi dyddio ac yn anghyflawn.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Anabledd	Positif	<p>Mae pobl anabl yn fwy tebygol o ddiodeff tlodi. Mae rhai pobl anabl hefyd yn gwario mwy ar danwydd ar gyfer cynnal meddyginiaethau / triniaethau / rheoli cyflwr. Mae i'r gronfa elfen ddisgresiynol sy'n rhoi hawliau i gyngor roi taliadau i grwpiau bandiau treth penodol, a rhyddhad i'r anabl / nam meddyliol.</p> <p>Yn ogystal â hynny, bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn golygu bydd modd rhoi cymorth i aelwydydd ble mae un o'r preswylwyr, neu bob un ohonynt, yn derbyn taliad un tro o £150 os ydynt yn derbyn gostyngiad i'w Treth Cyngor oherwydd anabledd.</p>
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod. Er fod tystiolaeth yn dangos fod merched yn fwy tebygol o ddiodeff tlodi, mae'r gronfa wedi ei sefydlu ar sail taliad i annedd.
Oedran	Positif	<p>Er fod grwpiau oedran ee Plant / Rhai dros 65 yn fwy tebygol o ddiodeff tlodi – mae'r gronfa wedi ei sefydlu ar sail taliad i annedd waeth be fo'r oedran.</p> <p>Mae'r cynllun yn cynnig taliad o £150 yr un i breswylwyr mewn eiddo band E-I sy'n derbyn disgownt person sengl, ond ni fuasent yn derbyn cymorth heb fabwysiadu'r cynllun hwn. Mae cyfran sylweddol sydd yn categori yma o gymorth yn bobl hyn. Maent mewn sefyllfa "asset rich, cash poor".</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

Ailbennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Yr iaith Gymraeg	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	Amcangyfrifir y bydd dros 4,200 o aelwydydd ychwanegol yn derbyn cymorth ariannol o daliad un-tro o £150 trwy'r cynllun yma.

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	<p>Ni chredir fod yr effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.</p> <p>Mae'r taliadau yn cael eu gwneud ar sail bandiau treth cyngor felly nid oes camwahaniaethu ar sail daliadaeth yr eiddo; demograffi deilyddion yr eiddo.</p> <p>Mae'r elfennau disgresiynol yn ehangu gwasanaethau cymorth i'r boblogaeth gyfan.</p>
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Nid ydym yn credu fod taliadau unwaith ac am byth o £150 dan y cynllun hwn am gael effaith o safbwynt hyrwyddo cyfle cyfartal.

Meithrin perthnasau da	Niwtral	Mae'r gwaith o sefydlu'r cynllun yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir a chanllawiau'r llywodraeth.
-------------------------------	---------	--

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Taliadau unwaith ac am byth o £150 i oddeutu 4,200 o aelwydydd sydd dan sylw yma yn unol â chynllun y llywodraeth. Yn y cyd-destun hwn, ni welwn fod y cynnig yn mynd yn groes i ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg mewn unrhyw fodd.

Yn yr un modd, credwn fod y pecyn o gymorth fydd yn cael eu cynnig i'r banciau bwyd yn gymorth i gefnogi aelwydydd Cymraeg eu hiaith o fewn Gwynedd heb greu anfanteision i aelwydydd di-Gymraeg.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith positif ar yr iaith.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, mae sylw penodol wedi cael ei roi i sicrhau fod y taliadau un-tro o £150 yn cael eu cyfeirio i aelwydydd nad oedd wedi derbyn cymorth oherwydd cyfyngiadau'r cynllun gwreiddiol ond sydd, serch hynny, yn breswylwyr mewn eiddo lle mae eithriad neu ddisgownt Treth Cyngor yn awgrymu y gallent wynebu trafferthion talu eu costau byw dros y misoedd nesaf. Mae mynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn greiddiol i'r cynllun hwn, er ein bod yn cydnabod na fydd un taliad o £150 ynddo'i hun am wneud gwahaniaeth sylweddol.

Bydd y cymorth i Hybiau Banciau Bwyd yn caniatáu i ystod o gyrff i roi cymorth i unigolion a theluoedd mwyaf bregus Gwynedd.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Gan fod natur y taliadau hyn yn seiliedig ar gyfrifon Treth Cyngor, a chanllawiau'r Llywodraeth yn ymofyn hynny i raddau helaeth, credwn ein bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i ddefnyddio'r Cynllun Dewisol i gynorthwyo'r haen o aelwydydd sydd mewn risg o gael trafferth i dalu eu biliau, ond nad oedd wedi cael cymorth dan y cynllun gwreiddiol.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o weithredu'r cynllun.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae effaith wedi ei adnabod, a bydd yn bositif, ond ni chredir y bydd yn sylweddol oherwydd y symiau ariannol sydd dan sylw. Nid yw'r gefnogaeth ariannol (taliadau unigol) a ddarperir yn cyfarch y bwlch yn sgil y cynnydd mewn costau.

Trefniant dros dro yw'r taliad a'r gwasanaethau cymorth tan Mawrth 2023, ac nid oes cronfa na polisi ar gyfer y cyfnod wedi hynny pe bae costau byw yn parhau run peth neu'n waethygu eto.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mae'r cynllun yn ymwneud â dosbarthu symiau ariannol i aelwydydd sydd wedi cael eu hadnabod, nid yw hynny'n golygu torri gwasanaeth a nid ydym yn credu fod aelwydydd haeddiannol wedi cael eu gadael allan.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Fel rhan o'r broses o fonitro'r cynllun yn ariannol, byddwn yn adnabod arian sydd yn weddill ac yn ymdrechu i'w wario o fewn Gwynedd, yn unol â'r hyn a ganiateir gan y cynllun.